



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Adroddiad Blynyddol Annual Report 2019 / 2020

Cynnwys

04

Amdanom ni

06

Darparwyr cyrsiau'r
Ganolfan

08

Croeso

10

Rhagair

16

Dysgwyr a thiwtoriaid
ysbrydoledig

18

Lefelau dysgu'r sector
Dysgu Cymraeg

20

Amcan Strategol 1:
Datblygu rhaglen
arloesol o gyrsiau

24

Amcan Strategol 2:
Cynlluniau arloesol i
ddysgwyr ddefnyddio
eu Cymraeg

34

Amcan Strategol 3:
Rhwydwaith o
ddarparwyr cyrsiau

38

Amcan Strategol 4:
Codi proffil y sector

42

Amcan Strategol 5:
Sefydlu a chynnal
gweithdrefnau

52

Ystadegau Dysgu
Cymraeg

55

Cysylltwch â ni

Contents

05

About us

07

The Centre's course
providers

09

Welcome

11

Foreword

17

Inspirational learners
and tutors

19

Learning levels in the
Learn Welsh sector

21

Strategic Objective 1:
Develop an innovative
programme of courses

25

Strategic Objective 2:
Pioneering schemes
for learners to use
their Welsh

35

Strategic Objective 3:
Network of course
providers

39

Strategic Objective 4:
Raise the sector's profile

43

Strategic Objective 5:
Establish and maintain
support procedures

53

Learn Welsh
Statistics

55

Contact us

Tynnwyd y lluniau o ddysgwyr Cymraeg yn y ddogfen yma ar benwythnos Cymraeg i'r Teulu ym mis Chwefror 2020 yn Llangrannog.

The pictures of Welsh learners in this document were taken on the 'Welsh for the Family' weekend in Llangrannog in February 2020.





Croeso i Adroddiad Blynyddol 2019-2020 y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cefndir

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n gyfrifol am y sector Dysgu Cymraeg i oedolion. Mae'r Ganolfan yn gorff hyd braich wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gartrefu ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Y deilliannau craidd a osodwyd i'r Ganolfan gan y Llywodraeth yw:

- ▶ Bod yn sefydliad gweledol sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r sector Dysgu Cymraeg.
- ▶ Cynnig arweiniad i ddarparwyr Dysgu Cymraeg i oedolion.
- ▶ Codi safonau addysgu a dysgu y sector Dysgu Cymraeg i oedolion.
- ▶ Datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon a chynhyrchu adnoddau sy'n addas i bob math o ddysgwyr.

Cynllun Strategol

Mae Cynllun Strategol y Ganolfan yn cynnwys pum prif amcan:

1. Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf.
2. Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.
3. Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr cyrsiau er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth.
4. Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac sy'n parhau i ddysgu'r Gymraeg.
5. Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r gwasanaeth.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar gynnydd tuag at yr amcanion hynny.

Mae'r gwaith o lunio Cynllun Strategol y Ganolfan ar gyfer y cyfnod nesaf wedi'i oedi, yn sgil y sefyllfa iechyd cyhoeddus diweddar. Mae'r Cynllun presennol, felly, yn parhau tan 2021, gydag ychwanegiadau.

Welcome to the National Centre for Learning Welsh Annual Report 2019-2020.

Background

The National Centre for Learning Welsh is responsible for all aspects of the Learn Welsh for adults sector. The Centre is an arm's length body funded by the Welsh Government and hosted by the University of Wales Trinity Saint David. The core outcomes set for the Centre by the Welsh Government are to:

- ▶ Be a visible institution setting a national strategic direction for the Learn Welsh sector.
- ▶ Provide leadership for the Centre's course providers.
- ▶ Raise standards in teaching and learning in the Learn Welsh sector.
- ▶ Develop a high quality, appropriate and engaging national curriculum and produce resources suitable for a range of learners.

Strategic Plan

The Centre's Strategic Plan includes five key objectives:

1. Develop an innovative programme of attractive and suitable courses for learners, making full use of the latest technology.
2. Develop innovative schemes to secure opportunities and contexts where learners can use their Welsh with confidence.
3. Establish a network of course providers to offer a service of excellence.
4. Raise the sector's profile and increase the numbers who start courses and continue to learn Welsh.
5. Establish and maintain service support procedures.

The Annual Report reports on progress against these objectives.

The work of compiling the Strategic Plan for the next phase has been delayed as a result of the recent public health situation. The current Plan, therefore, continues until 2021, with additions.

Darparwyr cyrsiau'r Ganolfan

Mae'r Ganolfan yn gweithio gydag 11 darparwr cyrsiau, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan ym mhob cwr o Gymru.

Enw'r ddarpariaeth	Sefydliad	Ardaloedd Llywodraeth Leol
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys - Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth	Ceredigion, Powys, Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Cyngor Sir Gâr	Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	Sir Fynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Bro Morgannwg	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	Cenedlaethol

The Centre's course providers

The Centre works with 11 course providers, who deliver courses on its behalf in all parts of Wales.

Name of provision	Organisation	Local Authority Areas
Learn Welsh North West	Bangor University	Gwynedd, Anglesey, Conwy
Learn Welsh North East	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	Denbighshire, Flintshire, Wrexham
Learn Welsh Ceredigion - Powys - Carmarthenshire	Aberystwyth University	Ceredigion, Powys, Carmarthenshire (specific part of the provision)
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire County Council	Carmarthenshire (specific part of the provision)
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University	Swansea, Neath Port Talbot
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council	Pembrokeshire
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent	Monmouthshire, Newport, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerphilly
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan Council	Vale of Glamorgan
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University	Cardiff
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Bridgend
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn Welsh Language and Heritage Centre	National



Croeso – Yr Hybarch Randolph Thomas

Cadeirydd Bwrdd Cwmni y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Fe ddechreuodd blwyddyn academaidd 2019-2020 gyda'r bwrlwm arferol – miloedd o oedolion yn dilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg di-ri mewn cymunedau ledled y wlad; prysurdeb 'Cymraeg Gwaith', y cynllun i gryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd, a phrosiectau niferus eraill yn cael eu rhoi ar waith.

Yng nghanol y flwyddyn, fe ddaeth gofid ac ansicrwydd Covid-19 a'r Cyfnod Clo i darfu arnom. Bu'n rhaid dod â'r dosbarthiadau wyneb-i-wyneb i ben yn ystod mis Mawrth a chanslwyd digwyddiadau a gwobrau cenedlaethol.

Yn wyneb yr her enfawr honno, mae'n falch gen i adrodd i'r Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau ymateb yn bositif a pharhau â'u gwasanaeth gwerthfawr i ddysgwyr. Dros nos, fe drodd y cyrsiau yn y dosbarth yn gyrsiau dysgu o bell mewn dosbarthiadau rhithiol. Fe addasodd ein tiwtoriaid i ddefnyddio platfformau digidol ac yn fuan iawn gwelwyd potensial y cyfrwng i gynnal cyfleoedd diddorol i ddysgwyr ymarfer a mwynhau eu Cymraeg yn anffurfiol, yn ogystal â dysgu.

Ers cymryd cyfrifoldeb dros y sector yn 2016, mae datblygu adnoddau a llwyfan dysgu digidol pwerus wedi bod yn flaenoriaeth i'r Ganolfan ac mae'r pwyslais hwnnw wedi talu ar ei ganfed. Bu'n bosib cyflwyno cyrsiau cyfunol cenedlaethol newydd yn y Gwanwyn, sy'n asio dysgu o bell mewn dosbarth rhithiol dan arweiniad tiwtor gyda gwaith annibynnol ar-lein. Mae miloedd mwy o oedolion wedi dilyn y cyrsiau hynny a'r cyrsiau ar-lein oedd ar gael yn barod, a 'dyn ni'n falch iawn o'u croesawu i'n cymuned.

Bu toriadau i gyllideb y Ganolfan yn sgil yr argyfwng iechyd a bu'n rhaid dod â rhai cynlluniau i ben. Bu'n rhaid addasu 'Cymraeg Gwaith' yn sylweddol, ond 'dyn ni'n hyderus y byddwn yn parhau i gynnal cyfleoedd newydd i weithwyr ddysgu'r iaith yn eu gweithleoedd.

Mae pawb yn y sector Dysgu Cymraeg wedi gweithio'n ddi-baid yn ystod y cyfnod hwn. Dw i'n ddiolchgar iddyn nhw, ac i dîm y Ganolfan, am eu gwaith dyfal. Hoffwn ddiolch, hefyd, i fy nghyd-aelodau o Fwrdd y Cwmni ac i Gadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan, Rheon Tomos, a'r holl aelodau, am eu cefnogaeth.

Welcome – The Venerable Randolph Thomas

Chair of the Board of the National Centre for Learning Welsh

The 2019-2020 academic year began in the usual way – thousands of adults joining Learn Welsh Courses in communities across the country; hundreds of employers signing up to 'Work Welsh, the scheme to strengthen Welsh skills in the workplace, and numerous other exciting projects underway.

Yet in March, the uncertainty and worry of Covid-19 and Lockdown came upon us. Face-to-face teaching came to an end and numerous events and national awards were cancelled.

Faced with this enormous challenge, I'm pleased to report the Centre and its course providers responded in a positive way and were able to continue with their valuable service to learners. Overnight, courses transferred from the classroom to distance learning in virtual classrooms. Our tutors adapted to using digital platforms and we soon saw the potential of this medium to offer interesting opportunities to our learners to enjoy and practise their Welsh, as well as a tool for learning.

Since taking responsibility for the sector in 2016, developing a powerful digital platform and resources had been a priority for the Centre and this focus has paid dividends. The Centre was able to introduce new national blended courses in the Spring, which combine tutor-led distance learning in a virtual classroom with independent online study. Thousands more adults have followed those courses and the online courses already available at [learnwelsh.cymru](https://www.learnwelsh.cymru) and we're delighted to welcome them to our community.

As a result of the health crisis, the Centre has faced cuts to its budgets and has had to cancel some projects. The Work Welsh scheme has been significantly revised, however we are confident we can continue to offer new opportunities to employees to learn Welsh in their places of work.

Everyone in the Learn Welsh sector has worked tirelessly during this period. I'm grateful to them and to the Centre's team, for their diligent work. I would also like to thank my fellow members on the Board of Directors and Rheon Tomos, chair of the Centre's Advisory Board, and its members, for their support.

Rhagair – Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr

Ers canol mis Mawrth 2020, mae'r sefyllfa iechyd cyhoeddus wedi trawsnewid y sector Dysgu Cymraeg – ond yr un yw nod y Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau, sef croesawu a chefnogi dysgwyr o bob cefndir i ddysgu a mwynhau'r Gymraeg.

Mewn cyfnod ansicr ac anodd, roedd oedolion ym mhob rhan o'r wlad yn gallu parhau i ddysgu gyda ni, gyda'n tiwtoriaid yn arwain sesiynau dysgu o bell mewn dosbarthiadau rhithiol. Cyflwynwyd mentrau digidol newydd, gan gynnwys gwersi dyddiol byw a ffrydiwyd ar dudalen Facebook y Ganolfan, sesiynau holi ac ateb byw a fideos hwyliog ar gyfer rhieni a gofawyr plant ifanc. Roedd hyn yn ychwanegol i'r 1,500 o adnoddau fideo, sain a rhyngweithiol a'r gyfres o gyrsiau byrion ar-lein oedd eisoes ar gael ar ein plattform digidol, [dysgucymraeg.cymru](https://www.learnwelsh.cymru).

Roedd datblygiadau digidol eraill hefyd ar waith, yn adlewyrchu nod y Ganolfan o gynnig hyblygrwydd a dewis i bobl ddysgu'r Gymraeg, ac yn y Gwanwyn fe gyflwynwyd cyrsiau cyfunol cenedlaethol am y tro cyntaf erioed. Roedd yr ymateb yn ardderchog ac fe ddechreuodd oddeutu 900 o ddysgwyr newydd i'w cyrsiau hynny. Mae cynnydd aruthrol yn y niferoedd sy wedi dilyn ein cyrsiau ar-lein hefyd. Bydd y cynnydd hwnnw yn cael ei adlewyrchu yn y data swyddogol ar gyfer y flwyddyn 2019-2020 a fydd yn cael eu cyhoeddi fis Mawrth nesaf. Mae data y flwyddyn 2018-2019 ar gael yn yr Adroddiad hwn.

Mae dysgu sgil newydd yn rhoi sbardun a hyder i bobl ac mae ymuno â dosbarth yn ffordd dda o gysylltu ag eraill. Yn ogystal â chefnogi ein dysgwyr gyda'u dysgu, roeddem yn falch o'u chefnogi o safbwynt lles, gan gynnig trefn, normalrwydd a chefnogaeth gymdeithasol o dan amgylchiadau eithriadol.

Ochr yn ochr â'r cynnydd yn y diddordeb a'r niferoedd sy'n dysgu, mae'r Ganolfan wedi wynebu toriadau i'w chyllideb. Bu'n rhaid addasu 'Cymraeg

Gwaith' yn sylweddol ac oedi cynlluniau eraill i ddenu tiwtoriaid newydd, ifanc, i'r maes. Mae'r cynllun i gefnogi rhieni a gofawyr plant ifanc i ddechrau dysgu'r Gymraeg, 'Clwb Cwtsh' yn parhau ond ar wedd wahanol. Trwy weithio'n greadigol ac mewn partneriaeth ag eraill, 'dyn ni'n hyderus y gallwn barhau i gynnig cyfleoedd newydd i oedolion ddysgu Cymraeg.

Mae gwaith 'Academi', rhaglen hyfforddi'r gweithlu Dysgu Cymraeg, wedi parhau, ac yn ystod y Cyfnod Clo, cynhaliwyd sesiynau 'galw heibio' wythnosol i diwtoriaid y cyrsiau cyfunol newydd. Cynhaliwyd ein cynhadledd genedlaethol o bell, gyda bron 200 o diwtoriaid a staff eraill yn ymuno.

Mae ein partneriaethau gyda sefydliadau cenedlaethol eraill wedi parhau ac ymestyn yn ystod y cyfnod hwn. Cynhaliwyd yr ŵyl i ddysgwyr, Ar Lafar, ar-lein, a 'dyn ni wedi gweithio'n agos gyda'r Eisteddfod Genedlaethol i drefnu Pentref Dysgu Cymraeg yr Eisteddfod AmGen. Bydd Radio Cymru yn cynnal wythnos 'Dathlu Dysgu Cymraeg' ym mis Hydref ac mae cynlluniau diddorol ar y cyd ag S4C i ehangu'r arlwy i ddysgwyr.

Mae ystod o gyrsiau ar bob lefel wedi dechrau, yn ôl yr arfer, ym mis Medi. Mae'r cyrsiau hyn hefyd yn cyfuno dysgu o bell mewn dosbarthiadau rhithiol gyda gweithgareddau ar-lein. 'Dyn ni'n gobeithio bydd elfen 'wyneb yn wyneb' yn bosib yn hwyrach yn y flwyddyn, ond byddwn yn parhau i gynnig y dull o bell o fewn dosbarthiadau rhithiol fel opsiwn i'n dysgwyr.

Hoffwn ddiolch yn enfawr i bob tiwtor, holl staff darparwyr cyrsiau'r Ganolfan ac i dîm y Ganolfan, am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i ddysgwyr. Gallwn fod yn falch iawn o'r hyn 'dyn ni wedi'i gyflawni gyda'n gilydd dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i gofleidio'r cyfleoedd newydd sy'n deillio o'r chwyldro dysgu digidol er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau i oedolion ddysgu, ymarfer a mwynhau'r Gymraeg.



Foreword – Efa Gruffudd Jones, Chief Executive

Since mid-March 2020, the public health crisis has transformed the Learn Welsh sector - however the core aim of the Centre and its course providers remains the same: to welcome and support those from all backgrounds who want to learn and enjoy Welsh.

At a difficult and uncertain time, adults across Wales were able to continue learning Welsh with us, with our tutors leading distance learning sessions in virtual classrooms. New digital initiatives were introduced, including daily lessons live streamed on the Centre's Facebook page, live question and answer sessions and lively videos for parents and carers of young children. This was in addition to the 1,500 video, audio and interactive resources and short online courses already available on our digital platform, [learnwelsh.cymru](https://www.learnwelsh.cymru).

Other digital developments were also in the pipeline, reflecting the Centre's aim of offering flexibility and choice for people to learn Welsh, and in the Spring, new national blended learning courses were introduced for the first time. These courses combine tutor-led distance or classroom learning with independent online study. The response was excellent and around 900 new learners started these courses. There has also been a significant increase in the number of learners following our online courses. We will publish official data for 2019-2020 in March 2021 and are pleased to publish data for the 2018-2019 academic year in this report.

Learning a new skill gives people confidence and joining a class offers social interaction. As well as supporting students with their learning, we were also glad to help from a wellbeing point of view, by offering routine, normality and social support under exceptional circumstances.



Alongside the increase in the number of people interested in learning Welsh and in starting new courses, the Centre has faced budget cuts. The Work Welsh scheme has been significantly revised and plans to attract new graduates to the sector, to train as tutors, have been put on hold. Clwb Cwtsh, which enables parents and carers of young children to start learning Welsh, will continue, but this scheme too has been adapted. By working creatively and in partnership with others, we are confident we can continue to offer new opportunities for adults to learn Welsh.

The work of Academi, the Learn Welsh workforce training programme, has continued, and during Lockdown, weekly 'drop in' sessions were held for tutors teaching on the new blended courses. Our national conference was held via digital means, with nearly 200 tutors and other staff members joining us online.

Our partnerships with other national institutions have continued and extended during this period. 'Ar Lafar', the festival for Welsh learners, was held online, and we have worked closely with the National Eisteddfod to organise the virtual Learn Welsh Village at the Eisteddfod AmGen alternative eisteddfod. BBC Radio Cymru will hold the 'Dathlu Dysgu Cymraeg' (Celebrate Learning Welsh) week in October and we're working with S4C to expand its provision for learners.

As usual, a range of new courses, available at all levels, started in September. These courses also combined distance learning in virtual classrooms with online activities. We hope that face-to-face teaching will be possible later in the year, but we will continue to offer distance learning in virtual classrooms as an option for our learners in future.

I would like to say a massive thank you to all our tutors and the staff at our course providers, along with the Centre's own team, for their dedication, and for the support they have given our learners. We can be extremely proud of what we have achieved together over the past academic year.

Looking to the future, we will continue to embrace new opportunities resulting from the digital learning revolution in order to give adults the best possible chance to learn, practise and enjoy Welsh.



Rajesh David

Dysgwyr sy'n ysbrydoli

Mae gan bob dysgwr ei stori ddiddorol

Rajesh

Cafodd Rajesh David ei eni a'i fagu ym Mumbai, ond syrthiodd mewn cariad â Chymru pan ddaeth ef a'i wraig i'r wlad am y tro cyntaf 15 mlynedd yn ôl. Penderfynodd Rajesh a Marye ymgartrefu yn Llanbedr Pont Steffan a manteisio ar bob cyfle posib i ddysgu'r Gymraeg.

Roedd Rajesh eisiau dysgu Cymraeg er mwyn canu yn yr iaith, a dysgu mwy am hanes a diwylliant Cymru. Mae'n rhan o driawd Indo-Geltaidd o'r enw Tŷhai ac yn athro ioga profiadol. Mae Rajesh wedi teithio drwy'r Deyrnas Unedig ac Ewrop yn hyfforddi athrawon ioga ac mae bellach yn gwneud hynny ar-lein.

Mae Rajesh wedi mwynhau cael parhau i ddysgu Cymraeg gartref yn ystod y Cyfnod Clo: **"Mae astudio gartref wedi bod yn debyg iawn i astudio yn y dosbarth, er bod peidio teithio i'r dosbarth wedi bod yn deimlad braf! Mae sgwrsio mewn grwpiau breakout llai, sgwrsio gyda siaradwyr rhugl a gwranddo ar siaradwyr gwadd wedi bod yn werth chweil,"** meddai.

Roedd Rajesh yn mynychu dosbarth lefel Uwch gyda'r tiwtor, Philippa Gibson, sy ar fin ymddeol ar ôl 30 mlynedd yn y sector. Ychwanega: **"Mae Philippa yn diwtor arbennig ac ysbrydoledig. Roedd pawb wrth eu bodd gyda'i sesiynau gramadeg ac yn gwerthfawrogi ei hamynedd tuag atom. Dw i wedi dysgu cymaint ganddi a hoffwn ddyuno ymddeoliad heddychlon a hapus iddi."**

Barbara a Lauren

Ers mis Mai, mae mam a merch, Barbara Raybould a Lauren Black, wedi bod yn dysgu Cymraeg gyda'i gilydd, er eu bod yn byw dros fil o filltiroedd ar wahân. Mae Barbara wedi bod yn gofalu am ei thad yn Coventry, ond mae fel arfer yn byw ac yn gweithio yng Nghymru am ran o'r wythnos, ac mae Lauren yn byw yn Stockholm.

Fe glywodd Lauren, sy'n cynllunio dillad bechgyn i siop H&M, am y cwrs cyfunol cenedlaethol a dwyn perswâd ar ei mam i wneud rhywbeth positif yn ystod y Cyfnod Clo. Ymunodd y ddwy â'r cwrs gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain.

Meddai Lauren: **"Roeddwn wedi bod eisiau dysgu Cymraeg ers blwyddyn neu ddwy, ond roedd yn anodd gan nad ydw i'n byw yng Nghymru. Pan wnes i glywed am y cwrs yma, mi wnes i ffonio Mam ac mi wnaethon ni benderfynu cofrestru. Mae dysgu ar Zoom yn ardderchog gan ei fod yn fy ngalluogi i ddysgu pan dw i'n byw dramor."**

Mae'r ddwy yn mwynhau'r cwrs, ac yn gobeithio parhau i ddysgu'r iaith, fel yr eglura Barbara: **"Dw i wedi mwynhau cyfarfod pobl newydd yn ystod y Cyfnod Clo ac mae'r tiwtor, Huw Gwyn, yn bositif iawn ac yn ein hannog i ddal ati. Dan ni'n dwy isio parhau i ddysgu Cymraeg a dan ni'n bwriadu dilyn cwrs arall yn y dyfodol agos."**

Inspirational Learners

Every learner has an interesting story

Rajesh

Rajesh David was born and bred in Mumbai, but fell in love with Wales after visiting with his wife 15 years ago. Rajesh and Marye decided to make Wales their home and settled in Lampeter, where they have made the most of every opportunity to embrace the Welsh language.

Rajesh wanted to learn Welsh so that he could sing in Welsh, and learn more about the country's history and culture. He's a member of an Indo-Celtic trio called Tŷhai and is also an experienced yoga teacher. Rajesh has travelled throughout the UK and Europe to train yoga teachers and currently teaches online.

Learning Welsh online during lockdown has proved to be a positive experience for Rajesh: **"We studied in the exact same way as we would have done in class, and learning from the comfort of my own home, without the commute was great! Chatting in breakout rooms, speaking to fluent Welsh speakers and listening to guest speakers online has been invaluable,"** he says.

Rajesh attended an Advanced level Learn Welsh course with tutor Philippa Gibson in Cardigan, who will shortly retire after 30 years in the sector. Rajesh says: **"Philippa is an outstanding and inspiring tutor. Everybody in class always appreciated her patience and enjoyed her grammar sessions in particular. I feel fortunate to have learnt so much from Philippa and wish her a peaceful and happy retirement."**

Barbara and Lauren

Since May, mother and daughter, Barbara Raybould and Lauren Black, have been learning Welsh together, even though they live over a thousand miles apart. Barbara has been caring for her father in Coventry, but usually lives and works in Wales for part of the week, while Lauren lives in Stockholm.

Lauren, who designs boys' clothes for H&M, heard about the new national blended learning courses and persuaded her mum to do something positive during lockdown.

Lauren explains: **"I'd wanted to learn Welsh for a year or two, but it was difficult as I didn't live in Wales. When I heard about this course, I phoned Mum and we decided to register. We've been learning on Zoom - it's great, as I can learn the language while living abroad."**

The pair are enjoying the course and hope to carry on learning. Barbara adds: **"I've enjoyed meeting new people during lockdown, and our tutor, Huw Gwyn, is very positive and encouraging. We both want to carry on learning Welsh and we intend to follow another course in the near future."**



Lauren Black, Barbara Raybould

Tiwtoriaid Ysbrydoledig

Yn arwain ac yn ysbrydoli'r dysgwyr mae tiwtoriaid y sector Dysgu Cymraeg. Mae oddeutu 500 ohonynt yn gweithio yn y maes.

Philippa

Cafodd cyfraniad eithriadol un o diwtoriaid Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr ei gydnabod ym mis Ionawr eleni gan Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru. Enillodd Philippa Gibson y wobwr am y Tiwtor Dysgu Cymraeg gorau yng Ngwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid y Sefydliad, gyda'r beirniaid yn canmol ei llwyddiant yn dod â dysgwyr a siaradwyr Cymraeg at ei gilydd yn y gymuned.

Wedi symud o Fryste lle cafodd ei geni a'i magu, dechreuodd Philippa ddysgu Cymraeg fel oedolyn ym 1987 ar ôl symud i fyw i Geredigion. Dechreuodd fynychu dosbarthiadau dwys yn Aberystwyth ac ar ôl ymgartrefu yn yr ardal roedd mwyfwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith a daeth y Gymraeg yn iaith yr aelwyd.

Enillodd radd mewn Seicoleg a gwneud amrywiaeth o swyddi cyn penderfynu mynd yn diwtor Cymraeg.

“Dechrau ar ddamwain wnes i,” eglura. **“Roedd un tiwtor yn methu dysgu'r dosbarth ac fe wnes i gamu mewn i helpu. Fe wnes i fwynhau, a pharhau i ddysgu mwy o ddosbarthiadau.”**

Yr hyn y mae Philippa yn ei fwynhau fwyaf am fod yn diwtor yw cyfarfod pobl frwdfrydig a diddorol: **“Mae tiwtora yn golygu gwneud cymaint ag y gallaf i helpu pob unigolyn i lwyddo trwy oresgyn unrhyw broblemau, boed yn wahanol broblemau dysgu neu ddiffyg hyder neu anwybodaeth am gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg.”**

Wrth baratoi at ymddeol mae Philippa yn edrych ymlaen at barhau i helpu gyda chlwb sgwrsio lleol i ddysgwyr. Mae hi hefyd eisiau dal ati i weithio gyda Gwrthryfel Difodiant er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Dymunwn yn dda i Philippa ar ei hymddeoliad gan ddiolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr i'r maes.



Philippa Gibson

Inspirational Tutors

Around 500 tutors work in the Learn Welsh sector, guiding and inspiring their learners.

Philippa

Philippa Gibson's exceptional contribution as a Learn Welsh tutor was recognised in January by the Learning and Work Institute Wales. Philippa, who works as a tutor with Learn Welsh Ceredigion-Powys-Carmarthenshire, won the award for Best Welsh Tutor at the Institute's Inspire! Tutor Awards, with judges praising her success in bringing Welsh learners and speakers together within the community.

Philippa learned Welsh as an adult after moving from Bristol, where she was born and brought up, to Ceredigion in 1987. She followed an intensive Welsh course in Aberystwyth and after settling in the area there were increasing opportunities to use the language in her everyday life and at home.

Philippa gained a degree in Psychology and held a variety of jobs before deciding to become a Welsh tutor.

“I began teaching by accident,” she explains. **“One tutor was unable to teach the class and I stepped in to help. I enjoyed it, and continued to teach more classes.”**

Philippa enjoys meeting enthusiastic and interesting people in her Welsh classes: **“Teaching Welsh is about doing as much as I can to help each individual succeed by overcoming any problems - different learning difficulties, lack of confidence or the inability to find opportunities to use their Welsh.”**

Philippa is due to retire, but is looking forward to continuing to help with a group of Welsh learners who meet regularly for coffee and a chat. She also wants to continue working with Extinction Rebellion to tackle the climate crisis.

We wish Philippa well on her retirement and thank her for her valuable contribution to the sector.

Lefelau dysgu'r sector Dysgu Cymraeg

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg y Ganolfan ar gael ar wahanol lefelau, sy'n cyd-fynd â lefelau dysgu fframwaith Cyngor Ewrop.

Enw'r lefel	Disgrifiad	Lefel dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop	Isafswm oriau cyswllt a argymhellir
Mynediad	Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau iaith syml ac ymadroddion pob dydd. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith.	A1	120
Sylfaen	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Mynediad ac yn gofyn am rywfaent o brofiad o'r Gymraeg. Mae'r prif bwyslais ar siarad yr iaith, gyda chyfle i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau.	A2	120
Canolradd	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Sylfaen ac yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando. Meithrin siaradwyr hyderus wrth drafod materion pob dydd yw'r prif nod.	B1	120
Uwch	Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando. Meithrin siaradwyr hyderus yw'r prif nod.	B2	360
Hyfedredd	Mae'r cyrsiau Hyfedredd, sy'n addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf, yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion y dosbarth. Y nod cyffredinol yw datblygu sgiliau presennol y myfyrwyr ymhellach a'u helpu i fagu hyder.		

Learning levels in the Learn Welsh sector

Learn Welsh courses provided through the National Centre for Learning Welsh are available at different levels, which correspond to the learning levels of the Common European Framework.

Name of level	Description	Learning levels of the Common European Framework	Recommended minimum number of contact hours
Entry	Courses for beginners, introducing simple vocabulary and linguistic patterns and everyday phrases. The emphasis is on speaking the language.	A1	120
Foundation	This level builds on Entry and requires some experience of Welsh. The main emphasis is on speaking, with an opportunity to discuss everyday subjects such as family and friends, work and hobbies.	A2	120
Intermediate	This level builds on Foundation and is suitable for those who are familiar with the main patterns of Welsh. There is an opportunity to develop conversational skills, with a little more writing, reading and listening. The main aim is to create confident speakers.	B1	120
Advanced	This is an opportunity to discuss all kinds of subjects and themes. Learners also develop their reading, writing and listening skills. The main aim is to create confident speakers.	B2	360
Proficiency	Proficiency courses, suitable for fluent learners and first language speakers, are tailored to the needs of the class. The general aim is to further develop students' existing skills and help them gain confidence.		



Tiwtor

Amcan Strategol 1:

Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf.



- ▶ Dulliau dysgu
- ▶ Cyrsiau cyfunol cenedlaethol
- ▶ Datblygiadau digidol eraill
- ▶ Tracio cynnydd dysgwyr
- ▶ Gwersi cyfoes
- ▶ Arholiadau CBAC
- ▶ Cynhadledd genedlaethol

Dulliau dysgu

Ganof y flwyddyn, yn sgil yr argyfwng iechyd cyhoeddus, bu'n rhaid i ni droi at ddulliau newydd o ddysgu - dulliau o bell mewn dosbarthiadau rhithiol ac ar-lein. Mae'r Ganolfan yn ymfalchïo yn y ffordd mae'r tiwtoriaid a'r darparwyr cyrsiau wedi cofleidio'r dulliau hyn, gan alluogi ein dysgwyr i barhau i ddysgu a mwynhau'r iaith.

Cyrsiau cyfunol cenedlaethol

Yn y gwanwyn, fe gyflwynwyd cyrsiau cyfunol cenedlaethol am y tro cyntaf erioed, ar lefel Mynediad, ar gyfer dechreuwyr. Roedd y cyrsiau 10-wythnos yn cyfuno dysgu o bell dan arweiniad tiwtor (75% o'r cwrs) gydag astudiaethau ar-lein annibynnol (25% o'r cwrs). Roedd yr ymateb yn ardderchog, gydag oddeutu 900 o ddechreuwyr yn ymuno ag 89 o ddosbarthiadau newydd.

Ym mis Medi, byddwn yn cyflwyno parhad i'r cyrsiau cyfunol gwreiddiol. Byddwn yn datblygu cyrsiau cyfunol ar lefel Sylfaen yn y flwyddyn academaidd nesaf, ac yn cyflwyno cyrsiau cyfunol ar bob lefel i'r dyfodol.

Strategic Objective 1:

Develop an innovative programme of attractive and suitable courses for learners making full use of the latest technology.



- ▶ Learning methods
- ▶ National blended learning courses
- ▶ Other digital developments
- ▶ Tracking learners' progress
- ▶ Contemporary lessons
- ▶ WJEC examinations
- ▶ National conference

Learning methods

In March, as a result of the public health crisis, we had to turn to new methods of teaching - distance learning in virtual classrooms and online learning. The Centre is proud of the way its tutors and course providers have embraced these methods, enabling our learners to continue to learn and enjoy the language.

National blended learning courses

In the spring, we introduced new national blended learning courses for the first time, at Entry level, for beginners. The 10-week courses combined tutor-led distance learning (75% of the course) with independent online study (25% of the course). The response was excellent, with around 900 beginners joining 89 new classes.

In September, there will be progression for the learners on these courses. We will introduce a blended learning course at Foundation level in the next academic year and at all levels in future.





Cymraeg yn y Cartref
Welsh at Home

Learn Welsh at 3pm
– Deg am 3pm

Daily 10-minute Welsh lessons for beginners.
Gwersi byw ar gyfer dysgwyr newydd.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAG Dysgu Learn



Cymraeg yn y Cartref
Welsh at Home

Holi Helen

Dych chi'n dysgu Cymraeg?
Are you learning Welsh?

Do you have any questions for our tutor Helen?

Join our live language Q&A, Mondays, 3.00pm-3.30pm
on [Facebook.com/learncymraeg](https://www.facebook.com/learncymraeg)

With clear explanations and everyday examples,
Helen can answer your questions.

Croeso cynnes i bawb – ac i gwestiynau bach a mawr!

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAG Dysgu Learn

Datblygiadau digidol eraill

Cynhaliwyd gwersi a sesiynau byw ar dudalen Facebook y Ganolfan yn ystod y Cyfnod Clo. Cyflwynwyd geirfa ac ymadroddion pob dydd yn y gwersi dyddiol 'Deg am Dri', a gynhaliwyd am gyfnod o chwech wythnos. Darlledwyd fideos hwyliog yn cyflwyno geirfa berthnasol ar gyfer y Pasg, a chynhaliwyd sesiynau holi ac ateb byw, 'Holi Helen', gyda chyfle i ddysgwyr ar bob lefel gysylltu gyda'u cwestiynau gramadegol. Dros yr haf, dangoswyd fideos 'Clwb Cwtsh' dyddiol, oedd yn cyflwyno geiriau defnyddiol i rieni a gofalwyr plant ifanc. Paratowyd clipiau fideo gan diwtoriaid i gyd-fynd â'r 1,500 o adnoddau dysgu digidol ar wahanol lefelau oedd eisoes ar gael ar y Safle Rhyngweithiol, dysgucymraeg.cymru. Mae cyfres o gyrsiau blasu ar-lein hefyd ar gael ar y Safle. Ochr yn ochr â'r datblygiadau digidol cyffrous hyn, mae'r gwaith o beilota a mireinio'r cyrsiau cenedlaethol newydd ar lefelau Canolradd ac Uwch 3 wedi parhau.

Tracio cynnydd dysgwyr

Yn ogystal â'n galluogi ni i gyflwyno cyrsiau ar-lein ac unedau hunan astudio, mae'r System Rheoli Dysgu, sy'n rhan greiddiol o'n plattform digidol, hefyd yn caniatáu i ni ddilyn cynnydd ein dysgwyr, er mwyn cynnig anogaeth a chefnogaeth parhaus. Mae modd i diwtoriaid y cyrsiau cyfunol newydd weld a yw'r dysgwyr wedi cwblhau'r gwaith, y marc

a gawson nhw wrth gwblhau'r uned, a'u hunion atebion fel bod modd rhoi sylw i'r materion hyn.

Gwersi cyfoes

Cyhoeddir cyfres o wersi cyfoes bob blwyddyn, i ategu'r dysgu ar lefel Uwch. Yn 2019-20, cyhoeddwyd y canlynol:

- ▶ Hyrwyddo Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru ym mis Hydref 2019.
- ▶ Busnesau Cymreig.
- ▶ Cyfres ddrama S4C, 'Bang'.
- ▶ 'Tylwyth' gan y Theatr Genedlaethol. Bu'n rhaid gohirio'r daith oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus ond bwriedir perfformio'r ddrama ar ôl yr argyfwng iechyd felly bydd modd ail-ddefnyddio'r wers.

Arholiadau CBAC

Bu'n rhaid gohirio cyfres arholiadau Defnyddio'r Gymraeg yn ystod haf 2020, ond mae'n braf gallu adrodd bod cynnydd mawr yn niferoedd yr ymgeiswyr ar lefelau Sylfaen a Chanolradd.

Cynhadledd genedlaethol

Cynhaliwyd y gynhadledd flynyddol yn rhithiol, ar blatfform digidol, gyda bron 200 o diwtoriaid a staff eraill y darparwyr cyrsiau yn ymuno o bob rhan o Gymru.

Other digital developments

During Lockdown, lessons and other language sessions were livestreamed on the Centre's Facebook page. Everyday Welsh words and phrases were introduced in the daily 'Deg am 3pm' (Ten at 3pm) sessions, held over a six-week period. Light-hearted videos introducing Easter vocabulary were shown, along with live language Q and As, 'Holi Helen', giving learners at all levels a chance to ask their grammar-related questions. Over the summer, daily 'Clwb Cwtsh' videos introduced helpful vocabulary for parents and carers of young children. Tutors prepared video clips to accompany the 1500 digital learning resources already available on the Centre's digital platform. A series of online taster courses was also already available. Alongside these exciting digital developments the work of piloting and refining the new national courses at the Intermediate and Advanced 3 levels continued.

Tracking learners' progress

As well as enabling us to introduce online courses and self-study units, the Learning Management System on our digital platform allows us to track our learners' progress in order to offer continuous encouragement and support. Tutors on the new blended learning courses can see whether a learner has completed the work, what mark they received and their exact answers, so they can give attention to these matters.

Contemporary lessons

Each year, to support the learning at Advanced level, a series of contemporary lessons is devised. In 2019-20, the following were published:

- ▶ BBC Radio Cymru's 'Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg' – a week-long celebration of Welsh learners, held in October 2019.
- ▶ Welsh businesses.
- ▶ S4C's drama series, 'Bang'.
- ▶ 'Tylwyth' (family), a play by the Welsh language national theatre, Theatr Genedlaethol. The tour was postponed due to the public health crisis, but the drama will tour when safe to do so and it will be possible to re-use the lesson.

WJEC examinations

The 'Defnyddio'r Gymraeg' (Use of Welsh) exams, due to be held in the summer, were cancelled. However we're pleased to report a significant increase in the number of candidates at Foundation and Intermediate levels.

National conference

The annual conference was held virtually, via a digital platform, with almost 200 tutors and other staff from our course providers joining from all corners of Wales.

Amcan Strategol 2:

Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.



- ▶ Gwobrau Cymraeg Gwaith
- ▶ Addasu'r cynllun
- ▶ Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg
- ▶ Clwb Cwtsh
- ▶ Cynlluniau peilot Codi Hyder
- ▶ Croeso i bawb
- ▶ Cefnogi Dysgwyr
- ▶ Pentref Dysgu Cymraeg yr Eisteddfod AmGen
- ▶ Siarad
- ▶ Penwythnosau preswyl
- ▶ Ar Lafar
- ▶ S4C
- ▶ BBC Radio Cymru
- ▶ Eisteddfod T



Cefndir

Ers 2017 mae'r Ganolfan wedi cynnal 'Cymraeg Gwaith', cynllun i gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd ledled Cymru. Mae'r cynllun hyblyg hwn, sy'n cynnwys gwasanaeth gwybodaeth i gyflogwyr a chyrsgau ar-lein, dwys a phreswyl, yn un poblogaidd, ac yn 2019-2020, gwnaeth dysgwyr gymryd rhan mewn bron i 10,000 o weithgareddau dysgu.

Gwobrau Cymraeg Gwaith

Ar ddechrau'r Cyfnod Clo, cynhaliwyd gwobrau cenedlaethol Cymraeg Gwaith, am y tro cyntaf, ar-lein. Derbyniwyd llu o enwebiadau a dyfarnwyd gwobrau yn y categorïau canlynol:

- ▶ Dysgwr: Cynnydd ar lefel Mynediad/Sylfaen
- ▶ Dysgwr: Cynnydd ar lefel Canolradd+
- ▶ Dysgwr: Defnydd Gorau o'r Gymraeg yn y Gweithle
- ▶ Tiwtor y Flwyddyn 2020
- ▶ Cyflogwr y Flwyddyn 2020

Strategic Objective 2:

Develop innovative schemes to secure opportunities and contexts where learners can use their Welsh with confidence.



- ▶ Work Welsh Awards
- ▶ Adapting the scheme
- ▶ Learn Welsh Level Checker
- ▶ Clwb Cwtsh
- ▶ Projects to build confidence
- ▶ All are welcome
- ▶ Supporting Learners
- ▶ Learn Welsh Village at the 'Eisteddfod AmGen' (Alternative Eisteddfod)
- ▶ Siarad
- ▶ Residential weekends
- ▶ Ar Lafar Welsh learners' festival
- ▶ S4C
- ▶ BBC Radio Cymru
- ▶ Eisteddfod T



Background

Since 2017 the Centre has run 'Work Welsh', a scheme to strengthen bilingual skills in workplaces across Wales. This flexible scheme, which includes an employer information service, online, intensive and residential courses, has proved popular, and in 2019-2020, learners participated in nearly 10,000 learning activities.

Work Welsh Awards

At the beginning of Lockdown, the first ever National Work Welsh awards were held, online. We received numerous nominations and prizes were awarded in the following categories:

- ▶ Learner: Progress at Entry or Foundation level
- ▶ Learner: Progress at Intermediate+ level
- ▶ Learner: Best use of Welsh in the Workplace
- ▶ Tutor of the Year 2020
- ▶ Employer of the Year 2020

Many congratulations to Sacha Baber, who works in Bridgend College; Sarah Childs, who works for Coleg Ceredigion; Eva Huw, who works for Cardiff Metropolitan University; Faith Owen, a Learn Welsh tutor with Learn Welsh North East, and to the NPTC Group of Colleges.

Adapting the scheme

Following cuts to our budget as a result of the public health crisis, we had to completely restructure the scheme, with a much greater emphasis on online learning. Many of the sectoral plans have been delayed, but we hope to rebuild for the future.

In place of the intensive face-to-face learning, there is access to an online course equivalent to 60 hours of learning Welsh. This is the first time the Centre has offered this many hours of online learning. The course is fully self-study and is equivalent to half a level, known as Entry 1. A tutor will be available to support the learning.

There are a range of other attractive packages for employers and their workforces to take advantage of, including a series of 10-hour taster courses and live webinars that offer employers information and a taste of learning Welsh.

Employees can also use the Centre's 'Learn Welsh Level Checker'.

Llongyfarchiadau mawr i Sacha Baber, sy'n gweithio yng Ngholeg Penybont; Sarah Childs, sy'n gweithio i Goleg Ceredigion; Eva Huw, sy'n gweithio i Brifysgol Metropolitan Caerdydd; Faith Owen, tiwtor Dysgu Cymraeg gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain, ac i Grŵp Colegau NPTC.

Addasu'r cynllun

Yn dilyn toriadau i'n cyllideb yn sgil yr argyfwng iechyd cyhoeddus, bu'n rhaid addasu'r cynllun yn llwyr, gyda mwy o bwyslais o lawer ar ddysgu ar-lein. Bu'n rhaid oedi nifer o'r cynlluniau sectorol, ond ein gobaith yw ail-adeiladu ar gyfer y dyfodol.

Yn lle'r dysgu wyneb-yn-wyneb dwys, ceir mynediad at gwrs ar-lein sy'n gyfwerth â 60 awr o ddysgu Cymraeg. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Ganolfan gynnis cymaint â hyn o oriau dysgu ar-lein. Mae'r cwrs yn un hunan-astudio llwyr ac yn cyfateb i hanner lefel, sef Mynediad 1. Bydd tiwtor ar gael i gefnogi'r dysgu.

Mae dewis o becynnau deniadol eraill i gyflogwyr a'u gweithluoedd fanteisio arnynt, yn eu plith y gyfres o gyrsiau blasu 10-awr o hyd a gweminarau byw sy'n cynnig gwybodaeth i gyflogwyr a blas ar ddysgu'r Gymraeg.

Mae modd i weithwyr ddefnyddio 'Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg' y Ganolfan hefyd.

Gwiriwr Lefel Dysgu Cymraeg

Hyd yma, fel rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith, mae 333 o gyflogwyr a 2628 o unigolion wedi manteisio ar yr adnodd yma, sy'n asesu sgiliau Cymraeg unigolion. Mae'r gwiriwr lefel yn defnyddio technoleg ddiweddaraf deallusrwydd artiffisial er mwyn personoli'r profiad i unigolion. Bydd y Gwiriwr yn rhan annatod o gynnis Cymraeg Gwaith i gyflogwyr dros y cyfnod nesaf.

Clwb Cwtsh

Mae'r Clwb Cwtsh yn gynllun ar y cyd rhwng y Ganolfan a Mudiad Meithrin, i gefnogi rhieni a gofalwyr plant ifanc i ddechrau dysgu Cymraeg. Yn ystod y Cyfnod Clo, comisiynwyd fideos newydd wedi'u cyflwyno gan Lowri Delve, athrawes brofiadol a chyn-gyflwynydd rhaglenni Cyw ar S4C. Mae'r fideos yn cyflwyno geiriau ac ymadroddion pob dydd i'w defnyddio yn y cartref. Ochr yn ochr â'r fideos, trefnwyd sesiynau ymarfer ar-lein i rieni mewn partneriaeth newydd gyda 'Cymraeg i Blant', cynllun Llywodraeth Cymru. Ym mis Medi, bydd Clwb Cwtsh yn parhau, o bell.

Cynlluniau peilot Codi Hyder

Er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith pwysig o godi hyder siaradwyr Cymraeg, comisiynwyd dau brosiect peilot: un gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin ac un gyda Mentrau Iaith Cymru (gan edrych yn benodol ar Sir Gâr a Chaerffili). Bu'r pwyslais yn y Gogledd Orllewin ar godi hyder trwy gynnal gwersi ffurfiol, tra bo'r pwyslais ar annog defnydd cymunedol o'r Gymraeg gyda'r Mentrau Iaith. Ystyrir effeithlonrwydd y cynlluniau peilot hyn cyn penderfynu ar drywydd i ddatblygu'r gwaith ymhellach.

Croeso i bawb

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Ganolfan wedi gweithio gyda'i darparwyr i gynyddu'r ddarpariaeth i gymunedau aml-ddiwylliannol, gan gynnwys (ond ddim yn gyfyngedig i) ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae hwn yn brosiect fydd yn parhau dros y cyfnod nesaf wrth i ni sicrhau bod gan bawb sy'n byw yng Nghymru gyfle i ddysgu Cymraeg. Lluniwyd Cwrs Blasu penodol ar gyfer y ddarpariaeth.

Cefnogi Dysgwyr

Un o brif nodau'r Ganolfan yw sicrhau bod mwy o oedolion yn defnyddio'r Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r holl gyrsiau, trefnwyd digwyddiadau rheolaidd i roi cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg. Comisiynwyd yr awdur a'r cyflwynydd, Stifyn Parri, i gynnal sesiynau codi hyder i ddysgwyr fentro defnyddio eu Cymraeg. Yn ystod y Cyfnod Clo, cynhaliwyd llu o weithgareddau o bell, gan gynnwys cwisiau, boreau coffi, clybiau garddio, gigs, sesiynau cloccio a siaradwyr gwadd. Recordiwyd cyfres o fideos byrion gyda'r naturiaethwr Iolo Williams hefyd.

Pentref Dysgu Cymraeg yr Eisteddfod AmGen

Roedd y Pentref Dysgu Cymraeg rhithiol yn rhan o'r Eisteddfod AmGen, a gynhaliwyd ar-lein, ac ar y teledu a'r radio, gan nad oedd yn bosib cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron yn 2020. Fe gydweithiodd y Ganolfan gyda'r Eisteddfod i drefnu rhaglen o weithgareddau wythnosol a arweiniodd at yr Eisteddfod AmGen, oedd yn cynnwys fideos coginio, garddio a ioga wedi'u cyflwyno gan ddysgwyr. Trefnwyd rhaglen lawn o weithgareddau ar gyfer y Pentref, gan gynnwys boreau coffi ar wahanol lefelau dysgu, sesiynau blasu, a straeon byrion ar gyfer dysgwyr gan awduron poblogaidd. Fe weithiodd y Ganolfan gyda'r Eisteddfod i drefnu cystadleuaeth 'Dysgwr yr Ŵyl AmGen' - llongyfarchiadau mawr i'r enillydd, Jazz Langdon o Sir Benfro.

Siarad.

Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda'i gilydd
Bringing Welsh speakers and learners together

Mae Siarad yn gynllun gwirfoddol, wedi'i seilio ar gynllun tebyg o'r enw Voluntary Per La Llengua yng Nghatalwnia, sy'n paru siaradwyr rhugl gyda dysgwyr. Mae'r parau yn cytuno i gwrdd am 10 awr dros gyfnod o fisoedd, er mwyn rhoi cyfle i'r dysgwr ymarfer siarad Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a magu hyder. Cyn y Cyfnod Clo, roedd 200 o barau'n cwrdd ac mae'r cynllun wedi parhau yn ystod y cyfnod, gyda'r parau yn cwrdd o bell, ar e-bost neu dros y ffôn.

Penwythnosau preswyl

Daeth teuluoedd o bob rhan o Gymru at ei gilydd i fwynhau penwythnos o wersi Cymraeg a gweithgareddau hwyliog yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, ym mis Chwefror.

Ar Lafar

Er nad oedd yn bosib i ni gynnal yr ŵyl genedlaethol i ddysgwyr, Ar Lafar, ar y cyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru, roedd yn bosib cyflwyno gweithgareddau ac adnoddau diddorol ar-lein i helpu'n dysgwyr fwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg. Dangoswyd fersiynau byrion o sioeau theatr Mewn Cymeriad am Hedd Wyn a Mari Jones a chafwyd cyflwyniad i waith y Llyfrgell gan Mina Barnden, aelod o Archif Sgrin a Sain y Llyfrgell. Recordiodd Anni Llŷn fideo arbennig o weithdy geiriau hefyd.

Llongyfarchiadau i Carole Gowers o Gaernarfon, a enillodd gystadleuaeth ffotograffiaeth Ar Lafar 2020 gyda'i llun hyfryd o Lyn Nantlle Uchaf. Diolch i'r beirniad, y ffotograffydd Nick Treharne.

S4C

Mae'r Ganolfan yn parhau i gydweithio gydag S4C. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd adran arbennig i ddysgwyr ar eu gwefan a dros y cyfnod nesaf, bydd y Ganolfan yn cefnogi'r sianel wrth iddi ehangu'r ddarpariaeth i ddysgwyr. Fel rhan o becyn nawdd y gyfres 'Iaith ar Daith', a ddilynodd enwogion gwahanol wrth iddynt ddysgu Cymraeg, cyhoeddwyd erthyglau a fideos ar y platform digidol ac ar ffrydiau cymdeithasol y Ganolfan.

BBC Radio Cymru

Bydd BBC Radio Cymru yn cynnal wythnos i ddathlu Dysgu Cymraeg yn ystod mis Hydref 2020, gydag eitemau gan, ac ar gyfer dysgwyr, ar draws yr amserlen.

Eisteddfod T

Llongyfarchiadau i Rosina Jones, neu Rosie, enillydd gwobr Dysgwr yr Eisteddfod T. Trefnwyd yr Eisteddfod T gan yr Urdd, gan nad oedd yn bosib cynnal yr Eisteddfod arferol eleni.



Llun buddugol Carole Gowers o Lyn Nantlle Uchaf.
Carole Gowers' winning picture in the Ar Lafar photography competition.

Learn Welsh Level Checker

To date, as part of the Work Welsh scheme, 333 employers and 2628 individuals have taken advantage of this resource, which assesses the Welsh language skills of individuals. The Level Checker uses cutting-edge artificial intelligence technology to personalise the experience for individuals. The Checker will be an integral part of the Work Welsh offer to employers over the next period.

Clwb Cwtsh

Clwb Cwtsh is a joint scheme between the Centre and the Early Years specialists, Mudiad Meithrin, to support parents and carers of young children to start learning Welsh. During Lockdown, new videos were presented by Lowri Delve, an experienced teacher and former presenter of S4C's Cyw programmes for young children. The videos introduce everyday words and phrases for use in the home. Alongside the videos, online practice sessions for parents were organised as part of a new partnership with 'Cymraeg for Kids', a Welsh Government scheme. In September, Clwb Cwtsh will continue, via digital means.

Projects to build confidence

In order to tackle the important work of raising the confidence of Welsh speakers, two pilot projects were commissioned: one with Learn Welsh North West and one with language initiative, Mentrau Iaith

Cymru (looking specifically at Carmarthenshire and Caerphilly). The emphasis in the North West has been on raising confidence by holding formal lessons, while the emphasis is on encouraging community use of the language with the Mentrau Iaith. The effectiveness of these pilots will be considered before deciding on further strategic developments.

All are welcome

During the year, the Centre has worked with its course providers to increase provision for multicultural communities, including (but not limited to) asylum seekers and refugees. This is a project that will continue over the next period as we ensure that everyone living in Wales has the opportunity to learn Welsh. A specific taster course has been developed.

Supporting Learners

One of the Centre's main aims is to increase the use of Welsh by adults. During the year, in addition to all our courses, regular events were organised to give learners the opportunity to use and enjoy their Welsh. Author and presenter, Stifyn Parri, was commissioned to run confidence-building sessions for learners. During Lockdown, many remote activities were held, including quizzes, coffee mornings, gardening clubs, gigs, clog dancing sessions and guest speakers. A series of short videos was also recorded with nature expert Iolo Williams.





Ar Lafar

Learn Welsh Village at the 'Eisteddfod AmGen' (Alternative Eisteddfod)

The virtual Learn Welsh Village was part of the Eisteddfod AmGen, held online, and on the television and radio, as it was not possible to hold the National Eisteddfod in Tregaron in 2020. The Centre worked closely with the Eisteddfod to organise a programme of weekly activities leading up to the Eisteddfod AmGen, which included cookery, gardening and yoga videos presented by Welsh learners. A full programme of activities was organised for the Village, including coffee mornings at different learning levels, taster sessions, and short stories for learners by popular authors. The Centre also worked with the Eisteddfod to organise a competition for Welsh learners - many congratulations to the winner, Jazz Langdon from Pembrokeshire.

Siarad.

Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda'i gilydd
Bringing Welsh speakers and learners together

Siarad is a voluntary scheme, based on a similar scheme called Voluntariat Per La Llengua in Catalonia, which matches fluent speakers with learners. The pairs agree to meet for 10 hours over a period of months, in order to give the learner the opportunity to practise speaking Welsh in an informal environment and to gain confidence. Prior to Lockdown, 200 pairs met and the scheme has continued during this period, with people meeting remotely, by email or telephone.

gŵyl AmGen

Cystadleuaeth Dysgwyr yr Ŵyl AmGen

Adnabod dysgwyr sy'n gwneud ymdrech arbennig i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd pob dydd?

Beth am ei enwebu ar gyfer gwobr Dysgwyr yr Ŵyl AmGen?

Ewch i dysgucymraeg.cymru i lenwi'r ffurflen enwebu.

Pob lwc i bawb!

This is a competition for Welsh learners
- for more information go to learnwelsh.cymru

AMGEN radio cymru dysgucymraeg.cymru cymraeg.org.uk

Residential weekends

Families from across Wales came together to enjoy a weekend of Welsh lessons and fun activities at the Urdd Camp, Llangrannog, in February.

Ar Lafar Welsh learners' festival

Although we were unable to stage Ar Lafar, held in conjunction with The National Library of Wales and Amgueddfa Cymru - National Museum Wales, it was possible to present interesting activities and resources online to help our learners enjoy using their Welsh. Abridged versions of the 'Mewn Cymeriad/In Character' theatre shows about First World War poet, Hedd Wyn and Mari Jones, who walked barefoot to Bala to buy a Welsh language bible, were shown. Mina Barnden, a member of the Library's Screen and Sound Archive, gave an introduction to her work. Anni Llŷn also recorded a language workshop video.

Congratulations to Carole Gowers from Caernarfon, who won the 2020 Ar Lafar photography competition; many thanks to the judge, photographer Nick Treharne.

S4C

The Centre continues to work with S4C. During the year, a special section for learners was launched on the channel's website and over the next period, the Centre will support the channel as it extends its provision for Welsh learners. As part of the sponsorship package for 'Iaith ar Daith', an entertainment series following several celebrities as they learned Welsh, articles and videos were published on the Centre's digital platform and social media feeds.

BBC Radio Cymru

BBC Radio Cymru will again hold its 'Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg' - a week-long celebration of learning Welsh - during October 2020, with items by and for learners across the schedule.

Eisteddfod T

Congratulations to Rosina Jones, or Rosie, winner of the Eisteddfod T Learner Award. The Eisteddfod T was organised by the Urdd, as it was not possible to hold the usual Eisteddfod this year.

Amcan Strategol 3:

Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr cyrsiau er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth.



- ▶ Ansawdd
- ▶ Estyn
- ▶ Academi
- ▶ Grantiau Arloesi

Ansawdd

Mae'r Ganolfan wedi sefydlu fframweithiau ansawdd cadarn i sicrhau ei bod yn anelu at ragoriaeth wrth roi arweiniad strategol i'r sector Dysgu Cymraeg. Mae darparwyr cyrsiau'r Ganolfan yn casglu tystiolaeth glir sy'n dangos sut maen nhw'n cynnig y gwasanaeth gorau i'w dysgwyr.

Mae'r fframweithiau yn rhestru dangosyddion ar gyfer gwella ansawdd yn y pum maes a arolygir gan Estyn, swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru:

- ▶ Safonau.
- ▶ Lles ac agweddau at ddysgu.
- ▶ Addysgu a phrofiadau dysgu.
- ▶ Gofal, cymorth ac arweiniad.
- ▶ Arweinyddiaeth a rheolaeth.

Ers dechrau'r Cyfnod Clo, mae Pwyllgor Ansawdd y Ganolfan wedi cwrdd yn wythnosol, i roi cefnogaeth i'r darparwyr a rhannu arferion da yn ystod cyfnod o newid trawsnewidiol i'r sector. Mae'r pwyllgor wedi profi'n fforwm defnyddiol iawn. Y cam nesaf fydd darparu dogfen gynhwysfawr ar ddysgu o bell mewn dosbarthiadau rhithiol yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

Estyn

Cynhaliwyd Arolygiad o'r darparwr cyrsiau, Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain, sy'n bartneriaeth rhwng Coleg Cambria a chwmni Popeth Cymraeg, yn ystod mis Mawrth 2020. Roedd y darparwr yn 'rhagorol' mewn tri o'r pump maes - Lles ac agweddau at ddysgu, Gofal, cymorth ac arweiniad ac Arweinyddiaeth a rheolaeth - ac yn 'dda' yn y meysydd eraill. Nodwyd bod y tiwtoriaid yn "meithrin amgylcheddau dysgu cadarnhaol ac yn atgyfnerthu cymunedau dysgu cynhwysol a chynhaliol... ac yn tanio brwdfrydedd y dysgwyr."

Arolygwyd Dysgu Cymraeg Gwent, a leolir o fewn adran Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol Coleg Gwent, ym mis Hydref 2019. Roedd y darparwr yn 'rhagorol' mewn dau faes - Lles ac agweddau at ddysgu a Gofal, cymorth ac arweiniad - ac yn 'dda' yn y meysydd eraill. Yn ôl Estyn, mae'r darparwr "wedi creu ethos sy'n hybu'r Gymraeg yn gymunedol trwy ardaloedd yr hen Went ac yn treiddio i bob agwedd ar ei waith." Nodwyd, hefyd, bod gan staff "ymrwymiad angerddol tuag at gadw dysgwyr a sicrhau eu bod yn parhau â'u gwersi a dod yn siaradwyr rhugl."



Sefydlwyd grŵp llywio i gynllunio gwaith Academi, rhaglen y Ganolfan ar gyfer hyfforddi a datblygu gweithlu'r sector Dysgu Cymraeg. Mae'r grŵp yn cynnwys tri chynrychiolydd o blith y darparwyr (un rheolwr, un aelod o staff cefnogi ac un tiwtor). Nod Academi yw rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu ystod eang o sgiliau a phrofiadau, gan gryfhau ansawdd a chyfoethogi profiadau'r dysgwyr. Bydd Academi yn gwneud defnydd llawn o'r platfform digidol - dysgucymraeg.cymru - i sicrhau cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau unrhyw bryd ac o unrhyw le.

Mae amserlen gynhwysfawr ar y gweill, sy'n cynnwys gweminarau ar iechyd meddwl, gweithdai dysgu o bell ac ynganu a hyfforddiant ar gyrsiau Canolradd ac Uwch 3.

Mae'r Ganolfan yn gweithio i ddarparu cymhwyster cenedlaethol ar gyfer tiwtoriaid. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth 30 o diwtoriaid ddilyn rhan gyntaf yr hyfforddiant, 'Dechrau Dysgu'.

Strategic Objective 3:

Establish a network of course providers to offer a service of excellence.



- ▶ Quality
- ▶ Estyn
- ▶ Academi
- ▶ Innovation Grants

Quality

The Centre has established robust quality frameworks to ensure it strives for excellence in providing strategic leadership to the Learn Welsh sector. The Centre's course providers collect clear evidence to demonstrate how they offer the best service to their learners.

The frameworks include indicators for quality improvement in the five areas inspected by Estyn, Her Majesty's Inspectorate of Education and Training in Wales:

- ▶ Standards.
- ▶ Wellbeing and attitudes to learning.
- ▶ Teaching and learning experiences.
- ▶ Care, support and guidance.
- ▶ Leadership and management.

Since the beginning of Lockdown, the Centre's Quality Committee has met weekly, to provide support to course providers and share good practice during a period of transformational change for the sector. The committee has proved to be a very useful forum. The next step will be to provide a comprehensive document on distance learning in virtual classrooms in readiness for the new academic year.

Estyn

An Inspection of the course provider, Learn Welsh North East, a partnership between Coleg Cambria and Popeth Cymraeg, took place during March 2020. The provider was 'excellent' in three of the five areas - Wellbeing and attitudes to learning, Care, support and guidance and Leadership and management - and 'good' in the other areas. It was noted that tutors "foster positive learning environments and reinforce inclusive and supportive learning communities... and enthuse the learners."

Learn Welsh Gwent, based within Coleg Gwent's Bilingualism and Community Learning department, was inspected in October 2019. The provider was 'excellent' in two areas - Wellbeing and attitudes to learning, and Care, support and guidance - and 'good' in the other areas. According to Estyn, the provider "has created an ethos that promotes the Welsh language throughout the old Gwent areas, and permeates through every aspect of its work." It was also noted staff have a "passionate commitment to retaining learners and ensuring they continue their lessons and become fluent speakers."



A steering group has been established to plan the work of Academi, the Centre's programme for training and workforce development in the Learn Welsh sector. The group is made up of three course provider representatives (one manager, one support staff member and one tutor).

Academi aims to provide staff with opportunities to develop a wide range of skills and experiences, strengthening quality and enriching learners' experiences. Academi will make full use of the digital platform - learnwelsh.cymru - to ensure opportunities for staff to develop their skills at any time and from anywhere.

A comprehensive timetable has been planned, which includes mental health webinars, distance learning and pronunciation workshops and training for Intermediate and Advanced 3 courses.

The Centre offers a national qualification for tutors. During the year, 30 tutors undertook the first part of the training, 'Dechrau Dysgu' (Starting to Learn).

Yn ystod y Cyfnod Clo, cynhaliwyd cyfarfodydd galw-i-mewn wythnosol ar gyfer tiwtoriaid y cwrs cyfunol cenedlaethol – mae hyn wedi arwain

at rannu arferion da ymhlith tiwtoriaid a chreu ymdeimlad o brosiect cenedlaethol.

Grantiau Arloesi

Dyma grynodeb o brosiectau'r Grantiau Arloesi yn ystod 2019-2020.

Darparwr	Partneriaid	Crynodeb
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Mudiad Meithrin ac ysgolion cynradd y sir ac eraill; Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac eraill.	Parhad i elfennau'r cynllun blaenorol, sef: i) Darparu cyrsiau dilyniant i'r Clybiau Cwtsh er mwyn denu mwy o rieni i ddysgu Cymraeg. ii) Darparu cyrsiau newydd sy'n cyfuno dysgu yn y dosbarth gyda mynychu digwyddiadau defnyddio'r Gymraeg, gan roi cipolwg ar dair agwedd ar ddiwylliant Cymru: canu a cherddoriaeth; drama a pherfformio a chelf a llenyddiaeth.
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Dechrau'n Deg; Cymraeg i Blant; Oasis Caerdydd; Canolfan y Drindod; Tŷ'r Cymry.	Parhad i'r cynllun sy'n targedu teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghaerdydd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches gydag ystod o gyrsiau Dysgu Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau i ferched yn unig.
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Mudiad Meithrin.	Parhad o'r cynllun i ddarparu cyrsiau sy'n pontio Clwb Cwtsh a chysiau Cymraeg i'r Teulu.
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Iolanda Banu Viegas (Cydlynnydd Cyngor Hil Cymru a Chynghorydd y Gymuned Bortiwgaleg)	Prosiect i gynnis gwarsi Cyn-Fynediad a Mynediad, sesiynau ymwybyddiaeth, teithiau a chynllun mentora i'r gymuned Bortiwgaleg yn ogystal â cheiswyr lloches a ffoaduriaid.
Dysgu Cymraeg Ceredigion -Powys-Sir Gâr	Cynghorau Sir Gâr, Ceredigion a Phowys;	Mae'r cynllun parhad hwn yn cynnig cyrsiau i rieni a gweithgareddau teuluol mewn 14 ysgol/ardal, gyda nifer uchel o'r cyrsiau mewn ardaloedd difreintiedig a/neu'n cynnwys canran uchel o siaradwyr ieithoedd ychwanegol.
Dysgu Cymraeg Y Fro	Urdd Caerdydd a'r Fro; Menter Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; Addysg Gymunedol Oedolion Bro Morgannwg; Ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg.	Parhad o'r cynllun i ddenu mwy o rieni plant y Fro i ddysgu Cymraeg, ac ymestyn cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg, trwy gynnal sesiynau 'Clwb Ni' anffurfiol.

During Lockdown, weekly drop-in meetings were held for tutors on the national blended learning courses - this has led to the sharing of good practice

among tutors and a sense of working together on a national project.

Innovation Grants

Here is a summary of the Innovation Grant projects during 2019-2020.

Provider	Partners	Summary
Learn Welsh Pembrokeshire	Mudiad Meithrin, county primary schools and others; Pembrokeshire Coast National Park Authority and others.	Continuation of elements of previous scheme, namely: i) Provide follow-up courses for Clwb Cwtsh in order to attract more parents to learn Welsh. ii) Provide new courses that combine classroom learning with attending Welsh language events, giving an insight into three aspects of Welsh culture: music and song; drama and performance and art and literature.
Learn Welsh Cardiff	Flying Start; Cymraeg for Kids; Oasis Cardiff; Trinity Centre; Tŷ'r Cymry.	Continuation of the scheme offering Learn Welsh courses - including female-only courses - to families living in deprived areas of Cardiff, refugees and asylum seekers.
Learn Welsh North East	Mudiad Meithrin.	Continuation of the scheme to provide transitional courses for Clwb Cwtsh and Welsh for the Family courses.
Learn Welsh North East	Iolanda Banu Viegas (Coordinator of Race Council Wales and Portuguese Community Advisor)	A project to offer Pre-Entry and Entry level lessons, awareness sessions, day trips and a mentoring scheme to the Portuguese community as well as to asylum seekers and refugees.
Learn Welsh Ceredigion-Powys-Carmarthenshire	Ceredigion, Powys and Carmarthenshire County Councils; Mudiad Meithrin.	This continuation scheme offers courses for parents and family activities in 14 schools / areas, with a high number of courses in deprived areas and / or containing a high percentage of speakers of additional languages.
Learn Welsh The Vale	Cardiff and the Vale Urdd; Menter Bro Morgannwg; Mudiad Meithrin; Adult Community Learning; Welsh-medium schools.	Continuation of the plan to attract more parents of children in the Vale to learn Welsh, and extend opportunities for families to use Welsh, by holding informal 'Clwb Ni' sessions.

Amcan Strategol 4:

Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu'r Gymraeg.



- ▶ Platfform Digidol
- ▶ Fframwaith Digidol
- ▶ Ymgyrchoedd marchnata
- ▶ Ymchwil
- ▶ Cefnogi ymgyrchoedd

Platfform Digidol

Yn ystod y Cyfnod Clo daeth pwysigrwydd ein platfform digidol - dysgucymraeg.cymru - i'r sector yn fwyfwy amlwg. Mae'r platfform yn un aml haenog sy'n gartref i lu o adnoddau dysgu digidol, gan gynnwys cyrsiau blasu ar-lein ac adnoddau dysgu annibynnol y cyrsiau cyfunol cenedlaethol newydd. Mae gan bob dysgwr ardal 'bersonol' ar y Safle, Fy Nysgu, lle mae modd iddynt gasglu ynghyd adnoddau perthnasol a monitro eu cynnydd. Mae dysgwyr yn gallu dysgu ac ymarfer eu Cymraeg trwy ddefnyddio'r adnoddau hyn.

Mae'r platfform yn llwyfan cyfathrebu hollbwysig, ac fe'i diweddarwyd gyda gwybodaeth i ddysgwyr yn rheolaidd, wrth i'r Ganolfan a'i darparwyr addasu ac ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus.

Mae'r platfform hefyd yn ffenestr siop ar yr holl gyrsiau Dysgu Cymraeg sy ar gael, ac mae'n bosib i ddysgwyr chwilio, cofrestru a thalu am gwrs ar-lein. Yn gyffredinol, ers dechrau mis Ebrill, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd yr ymwelwyr i'r Safle o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Fframwaith Digidol

Mae'r platfform yn rhan allweddol o Fframwaith Digidol y Ganolfan, sy'n gosod cyfeiriad i waith digidol y sector Dysgu Cymraeg, gan ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- ▶ Arloesi.
- ▶ Cynnig ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ddysgu'n ddigidol.
- ▶ Darganfod dulliau newydd o helpu dysgwyr i ddysgu Cymraeg yn ddigidol.

Mae'r pwyslais hwn ar y gwaith digidol - a'r buddsoddiad cynnar mewn adnoddau a thechnoleg - wedi talu ar ei ganfed yn ystod y Cyfnod Clo.

I'r cyfnod nesaf, bydd y Ganolfan yn ystyried system o gydnabod llwyddiannau dysgwyr; byddwn hefyd yn cyflwyno cyrsiau dysgu ar-lein llwyr trwy gynllun Cymraeg Gwaith.

Ymgyrchoedd marchnata

Ionawr 2020

Ym mis Ionawr, cynhaliwyd ymgyrch recriwtio ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cyrsiau oedd yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd. Yn ystod yr un cyfnod, trefnwyd ymgyrchoedd i gynyddu niferoedd dilynwyd tudalen Facebook y Ganolfan. Fe dalodd hynny ar ei ganfed wrth i ni droi eto at Facebook yn y Gwanwyn i recriwtio dysgwyr ar gyfer y cyrsiau cyfunol cenedlaethol newydd.

Gwanwyn 2020

Fe wnaeth y gwersi fideo dyddiol, 'Deg am Dri', a ddarlledwyd ar ddechrau'r Cyfnod Clo, yn fyw ar Facebook, weithio fel arf farchnata effeithiol, yn ogystal ag ychwanegu at ein darpariaeth dysgu digidol. Ymunodd miloedd â'r gwersi fideo, a chynyddodd niferoedd ein dilynwyd yn sylweddol. Cynhaliwyd ymgyrch recriwtio benodol ar Facebook, gan dargedu'r rheiny oedd wedi troi at y gwersi fideo yn ogystal â darpar ddysgwyr eraill. Gwnaeth dros 3,000 o oedolion gofrestru eu diddordeb ar y cyrsiau cyfunol cenedlaethol ac ymunodd oddeutu 900 o bobl ag 89 o ddsbarthiadau newydd a ddechreuodd ym mis Mai.

Yn ystod y cyfnod yma, gwnaeth y Ganolfan noddi'r gyfres newydd ar S4C, 'Iaith ar Daith', gyda hysbysebion byrion yng nghanol y rhaglenni yn dangos dysgwyr yn mwynhau dysgu o bell mewn dosbarthiadau rhithiol. Fe wnaeth y gweithgaredd yma atgyfnerthu brand y Ganolfan yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â chyflwyno'r dull dysgu o bell newydd.

Strategic Objective 4:

Raise the profile of the sector and increase the numbers who start courses and continue to learn Welsh.



- ▶ Digital Platform
- ▶ Digital Framework
- ▶ Marketing campaigns
- ▶ Research
- ▶ Supporting campaigns

Digital Platform

During Lockdown, the importance of our digital platform - learnwelsh.cymru - to the sector became increasingly apparent. This multi-layered platform hosts a range of digital learning resources, including online taster courses and independent study units linked to the new national blended learning courses. Each learner has a 'personal' area on the Site, My Learning, where they can gather relevant resources and monitor their progress.

The platform plays an important communications role, and was updated with information for learners at regular intervals as the Centre and its course providers adapted and responded to the public health crisis.

The platform is also a window on all the available Learn Welsh courses, with learners able to search, register and pay for an online course.

Overall, since the beginning of April, there has been a significant increase in visitor numbers to the platform, compared with the same period last year.

Digital Framework

The digital platform is a key part of the Centre's Digital Framework, which sets the direction for the digital work of the Learn Welsh sector, using the following principles:

- ▶ Innovation.
- ▶ Offer learners a range of opportunities to learn digitally.
- ▶ Discover new ways to help learners learn Welsh digitally.

This emphasis on digital work - and the early investment in resources and technology - has borne fruit during Lockdown. For the next period, the Centre will look at developing a system to recognise learners' achievements; it will also deliver fully online learning courses through the Work Welsh scheme.

Marketing campaigns

January 2020

In January, the Centre ran a recruitment campaign across social media for courses starting in the New Year. During the same period, campaigns were held to increase the number of followers on the Centre's Facebook page. This work paved the way for a recruitment campaign on Facebook in the Spring for the new national blended learning courses.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

£45

Cynnig Cyw Cynnar

Dim ond £45 ar gyfer cwrs y flwyddyn nesaf os wnewch chi gofrestru cyn diwedd Gorffennaf.

Only £45 for next year's course if you sign up before the end of July.

'Dyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu nôl ym mis Medi!

Haf 2020

Dros yr haf, mae'r Ganolfan wedi canolbwyntio eto ar ddulliau digidol wrth recriwtio ar gyfer cyrsiau newydd Medi 2020, gan fod llwyfannau awyr agored a hysbysebu lleol yn llai effeithiol yn sgil y Cyfnod Clo. Nid yw'n bosib, chwaith, i'r Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau fynychu digwyddiadau cymunedol a chenedlaethol i hyrwyddo dysgu Cymraeg wyneb-yn-wyneb. Comisiynwyd fideos newydd gyda dysgwyr a thiwtoriaid, a phenderfynwyd cynnig gostyngiad Cyw Cynnar 50% yn genedlaethol hyd at ddiwedd mis Gorffennaf, gyda chynnig arbennig i ddechreuwyr yn ystod misoedd Awst a Medi.

Er mwyn cefnogi dilyniant, cyhoeddwyd cylchgrawn digidol 'Hwyl yr Haf' am y tro cyntaf, sy'n cynnwys cyfweiliadau ac eitemau difyr gyda dysgwyr a sawl wyneb cyfarwydd, gan gynnwys yr arbenigwr adar a natur, Iolo Williams. Roedd 'Her yr Haf' yn rhan o'r cylchgrawn, sef cyfle i ddysgwyr ennill cwrs am ddim trwy gwblhau gwahanol sialensiau i ymarfer eu Cymraeg dros yr haf.

Ymchwil

Yn sgil trafodaeth yn y Bwrdd Ymgynghorol, penderfynwyd cynnal prosiect ymchwil ar ddiwedd 2019 oedd yn edrych ar y cysylltiad rhwng agweddau at y Gymraeg ac awydd i'w dysgu. Roedd tair rhan i'r prosiect:

1. Adolygu gwaith ymchwil y Ganolfan hyd yma (adroddiadau cwmni Beaufort).
2. Llunio papur trafod yn edrych yn benodol ar y cysylltiad rhwng agweddau ac awydd i ddysgu.
3. Cynnal grŵp ffocws gyda dysgwyr newydd ym Mlaenau, ym Mlaenau Gwent.

Fe wnaeth y prosiect atgyfnerthu'r ffordd mae'r Ganolfan yn teilwra negeseuon ar gyfer carfannau penodol, megis rhieni, a'r penderfyniad i ddilyn themâu e.e. 'codi hyder', fel fframwaith ar gyfer ymgyrchoedd. Awgrymodd yr ymchwil nad yw agwedd positif at yr iaith yn ei hun yn creu parodrwydd nac ymdrechion i'w dysgu, er y gall fod yn rhagofyniad i hynny. Byddwn yn parhau i ystyried casgliadau ac argymhellion yr ymchwil dros y cyfnod nesaf.

Cefnogi ymgyrchoedd

Cefnogodd y Ganolfan ymgyrch Dydd Miwsig Cymru Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020 trwy gomisiynu rhaglen radio wedi'i chyflwyno gan ddysgwyr a ddarledwyd ar wefan Cymru.fm ac ar BBC Radio Cymru 2. Crëwyd fideo gerddoriaeth o ddysgwyr o bob rhan o'r wlad yn canu 'Harbwr Diogel' gan y gantores Elin Fflur.

Cydweithiodd y Ganolfan a'i darparwyr cyrsiau gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i hyrwyddo'r Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid blynyddol, ac mae'r Ganolfan yn cefnogi'r Sefydliad gyda'r cynlluniau amgen ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion a'r gwobrau Ysbrydoli! rhithiol ym mis Medi.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Penwythnos Cymraeg i'r Teulu Welsh for the Family Weekend

Gwersyll yr Urdd Llangrannog
21-23 Chwefror 2020
21-23 February 2020

Gwersi Cymraeg, gweithgareddau a hwyl i'r teulu cyfan.
Welsh lessons, activities and fun for all the family.

Spring 2020

The daily video lessons, 'Deg am 3pm' (Ten at 3pm), live streamed on Facebook at the beginning of Lockdown, worked as an effective marketing tool, as well as a new addition to our digital learning provision. Thousands joined the video lessons, and our followers increased significantly.

We held a recruitment campaign on Facebook, targeting those who'd joined the video lessons as well as other prospective learners, resulting in over 3,000 adults registering their interest on the national blended learning courses and around 900 people joining 89 new classes which started in May.

During this time, the Centre sponsored S4C's new entertainment series, 'Iaith ar Daith', which followed several celebrities as they learned Welsh, with short adverts during the programmes showing learners enjoying distance learning in virtual classrooms. This activity reinforced the Centre's brand during this time, and helped introduce the new distance learning approach.

Summer 2020

Over the summer, the Centre has again focused on digital approaches to recruitment for the new September 2020 courses, as outdoor platforms and local advertising are less effective due to Lockdown. It is also not possible for the Centre and its course providers to attend community and national events to promote Learn Welsh courses face-to-face.

New videos were commissioned with learners and tutors, and it was decided to offer a 50% Early Bird discount nationally until the end of July, with a special offer for beginners during August and September.

To support progression (learners moving from one course to the next), a digital magazine 'Hwyl yr Haf' was published for the first time, containing interviews and entertaining articles with learners and many familiar faces, including nature expert Iolo Williams. The 'Summer Challenge' was part of the magazine, an opportunity for learners to win a free course by completing various challenges to practise their Welsh over the summer.

Research

Following an Advisory Board discussion, it was decided to conduct a research project at the end of 2019 that looked at the relationship between attitudes to Welsh and a desire to learn the language. The project was in three parts:

1. Review the Centre's research to date (Beaufort surveys).
2. Produce a discussion paper looking at the relationship between attitudes and a desire to learn.
3. Hold a focus group with new learners in Blaina, Blaenau Gwent.

The project reinforced the importance of the Centre's approach in tailoring messages for particular groups, such as parents, and its decision to use themes such as 'Confidence building' as a framework for campaigns. The research suggested a positive attitude to the language does not in itself create a willingness or efforts to learn it, although it may be a prerequisite. We will continue to consider the conclusions and recommendations of the research over the next period.

Supporting campaigns

The Centre supported the Welsh Government's annual celebration of Welsh music, Dydd Miwsig Cymru, in February 2020 by commissioning a radio programme presented by learners, which was broadcast on the Cymru.fm website and on BBC Radio Cymru 2. A video of learners from across the country singing a song by Welsh singer Elin Fflur was also produced.

The Centre and its course providers collaborated with the Learning and Work Institute to promote the annual Inspire! Tutor Awards, and the Centre will support the Institute with its revised plans for Adult Learners' Week and the Inspire! Awards in September.

Lylchgrawn
Hwyl yr Haf

Sgwrs gyda Iolo
Stori gan Bethan Gwanas
Garddio gwych
A llawer mwy...


EADYTH A KIZZY CRAWFORD
Dwy chwaer sy'n caru cerddoriaeth

BWYD BLASUS A IACHUS
Rysâit Elisabeth Haljas

EISTEDDFOD AMGEN
Hoff ganeuon
Gwilym Bowen Rhys

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Hwyl yr HAF



Amcan Strategol 5:

Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r gwasanaeth.



- ▶ Dweud eich Dweud
- ▶ Llywodraethiant
- ▶ Cyllideb
- ▶ Staffio

Dweud eich Dweud - holiadur barn dysgwyr Cymraeg

Cafwyd ymateb positif gan ddysgwyr i'r holiadur blynyddol, Dweud Eich Dweud, a gwblhawyd ychydig cyn y Cyfnod Clo. Ymatebodd 2,635 o ddysgwyr, gyda 98% yn dweud eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg. Roedd 89% o ymatebwyr yn dweud bod eu profiad dysgu yn dda neu'n dda iawn a 96% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y tiwtor yn dysgu'r cwrs yn effeithiol. Roedd 88% yn teimlo'n fwy hyderus wrth siarad Cymraeg wrth ddilyn cwrs.

Crynodeb o gyllideb y Ganolfan

Ar ddechrau blwyddyn academiaidd 2019-2020, dyfarnwyd grant o £1,900,000 i'r Ganolfan tuag at y gwaith o roi arweiniad strategol i'r sector Dysgu Cymraeg a £8,810,000 i'w ddsbarthu i'w darparwyr ledled Cymru. Yn ogystal, derbyniwyd swm o £2,500,000 (Ebrill 2018-Mawrth 2019) tuag at y cynllun Cymraeg Gwaith.

Yn sgil sefyllfa Covid-19 derbyniwyd toriadau i gyllideb y Ganolfan o £153,800, felly £1,746,200 oedd y swm oedd ar gael ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019-2020 yn y pen draw.

Ar gyfer 2020-2021 y swm fydd ar gael ar gyfer y cynllun Cymraeg Gwaith fydd £1,355,000, a bydd gostyngiadau pellach i gyllideb y Ganolfan ac i'w darparwyr.



Strategic Objective 5:

Establish and maintain service support procedures.



- ▶ Have Your Say
- ▶ Governance
- ▶ Budget
- ▶ Staffing

Dweud Eich Dweud - the 'Have Your Say' survey

Learners responded positively to the annual survey, which was completed just before Lockdown. 2,635 learners took part, with 98% saying they enjoy learning Welsh. 89% of respondents rated their learning experience as good or very good and 96% agreed or strongly agreed that the tutor taught the course effectively. 88% felt more confident in speaking Welsh when following a course.

Summary of the Centre's budget

At the beginning of the 2019-2020 academic year, the Centre was awarded a grant of £1,900,000 towards the work of providing strategic leadership for the Learn Welsh sector and £8,810,000 to distribute to its course providers across Wales. In addition, a sum of £2,500,000 (April 2018-March 2019) was awarded to the Work Welsh scheme.

The public health crisis resulted in cuts to the Centre's budget of £153,800, leaving a total of £1,746,200 for the 2019-2020 academic year.

For 2020-2021, the amount available for Work Welsh will be £1,355,000, with further reductions to the budgets of the Centre and its course providers.

Crynodeb o gyllideb pob darparwr ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-2020

Brand Lleol	Sefydliad	Swm
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor	£1,557,580
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	£1,066,320
Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys - Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth	£1,199,440
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Cyngor Sir Gâr	£150,000
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	£873,271
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	£330,999
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	£1,156,465
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Bro Morgannwg	£308,840
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	£983,420
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	£1,013,665
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	£170,000

Budget summary for each provider for the academic year 2018-2019

Local brand	Institution	Allocation
Learn Welsh North West	Bangor University	£1,557,580
Learn Welsh North East	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	£1,066,320
Learn Welsh Ceredigion - Powys - Carmarthenshire	Aberystwyth University	£1,199,440
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire County Council	£150,000
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University	£873,271
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council	£330,999
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent	£1,156,465
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan Council	£308,840
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University	£983,420
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales	£1,013,665
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn Welsh Language and Heritage Centre	£170,000

Llywodraethiant

Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Unig aelod y cwmni o dan y Memorandwm Cymdeithasu yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Penodwyd Bwrdd Cyfarwyddwyr, sef: Yr Hybarch Randolph Thomas, Maria Stedman, Eifion Griffiths a Geraint Roberts.

Mae agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol y Ganolfan yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae'r Bwrdd yn sicrhau rheolaeth ariannol briodol a thryloyw ynghyd â rheolaeth risg gadarn a chyson. Mae'r Bwrdd, sy'n cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, hefyd yn sicrhau perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion perfformiad corfforaethol.

O dan Erthyglau Cymdeithasu y Cwmni, sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan.

Swyddogaeth y Bwrdd Ymgynghorol yw sicrhau bod y Ganolfan:

- ▶ yn cyflawni ei hamcanion strategol o ran y sector Dysgu Cymraeg trwy weddnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr.
- ▶ yn cyflenwi gwasanaethau i'r sector Dysgu Cymraeg yn unol â'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru.
- ▶ yn cytuno ar dargedau cenedlaethol ar gyfer y maes.

Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol, a benodwyd trwy broses agored, yw:

Enw	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen
Tim Hartley	1 Ebrill 2016	31 Mawrth 2022
Owain Gruffydd	1 Ebrill 2016	31 Mawrth 2022
Dr Jonathan Morris	1 Medi 2017	31 Awst 2023
Rheon Tomos (Cadeirydd)	7 Tachwedd 2018	6 Tachwedd 2021
Sharon Warren	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
Nia Parry	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
Helen Williams	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022

Mae gwaith y Ganolfan hefyd yn cael ei archwilio gan Bwyllgor Craffu annibynnol a sefydlwyd gan y Llywodraeth. Aelodau'r Pwyllgor Craffu yw:

- ▶ Steve Morris (Cadeirydd)
- ▶ Anna Skalistira-Bakratseva
- ▶ Dr Helen Barlow
- ▶ Richard Houdmont

Governance

The National Centre for Learning Welsh is a Company Limited by guarantee without share capital. The only member of the company under the Articles of Association is the University of Wales Trinity Saint David. A Board of Directors has been appointed: The Venerable Randolph Thomas, Maria Stedman, Eifion Griffiths and Geraint Roberts.

The corporate and constitutional aspects of the Centre are the responsibility of the Board of Directors. The Board of Directors ensures appropriate and transparent financial management, together with robust and consistent risk management. The Board of Directors ensures performance against the Company's main corporate performance indicators.

Under the Company's Articles of Association, the Centre's Advisory Board was appointed.

The role of the Advisory Board is to ensure that the Centre:

- ▶ meets its strategic objectives for the Learn Welsh sector by transforming the provision for learners.
- ▶ delivers services to the Learn Welsh sector in line with the vision and priorities presented in the successful bid to the Welsh Government.
- ▶ agrees national targets for the sector.

The Advisory Board's members, appointed through an open process, are:

Name	Start Date	End Date
Tim Hartley	1 April 2016	31 March 2022
Owain Gruffydd	1 April 2016	31 March 2022
Dr Jonathan Morris	1 September 2017	31 August 2023
Rheon Tomos (Chair)	7 November 2018	6 November 2021
Sharon Warren	1 April 2019	31 March 2022
Nia Parry	1 April 2019	31 March 2022
Helen Williams	1 April 2019	31 March 2022


The Centre's work is also scrutinised by an independent Scrutiny Committee set up by the Welsh Government. The Scrutiny Committee's members are:

- ▶ Steve Morris (Chair)
- ▶ Anna Skalistira-Bakratseva
- ▶ Dr Helen Barlow
- ▶ Richard Houdmont

Staffio

O dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae'r Ganolfan wedi'i rhannu'n dair cyfarwyddiaeth. Y Gyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu sy'n gyfrifol am agweddau cwricwlaidd; y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu sy'n gyfrifol am gyllid

a systemau rheoli perfformiad a phrosiectau amrywiol, gan gynnwys Cymraeg Gwaith; a'r Gyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r sector.




Mae 18 aelod o staff gan y Ganolfan.



Staffing

Led by the Chief Executive, the Centre is divided into three directorates. The Teaching and Learning Directorate is responsible for curricular aspects; the Planning and Development Directorate is responsible for finance and performance

management systems and special projects, including Work Welsh; and the Marketing and Communications Directorate is responsible for promoting the sector.



The Centre has 18 members of staff.

Data



► Ystadegau Dysgu Cymraeg

Cynllun Rheoli Data

Mae'r Cynllun Rheoli Data yn sicrhau bod y Ganolfan yn casglu ac adrodd ar ddata mewn modd cyson a chywir er mwyn monitro cynnydd ac adnabod tueddiadau arwyddocaol. Mae data yn cael eu casglu am holl ddysgwyr y Ganolfan, ac mae'r Ganolfan yn Gyhoeddwr Ystadegau Swyddogol ers 2019.

Niferoedd y dysgwyr unigryw

Mae 'niferoedd y dysgwyr unigryw' yn cyfrif pob dysgwr unwaith yn unig, faint bynnag o gyrsiau maent wedi eu dilyn yn ystod y flwyddyn. Yn **2018-2019**, roedd **13,260** o ddysgwyr unigryw, cynnydd o 5% o gymharu â 2017-2018.

Cysylltwch â ni:

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Heol y Coleg
Caerfyrddin SA31 3EP

swyddfa@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

  @learncymraeg

 Dysgu Cymraeg - learnwelsh

Gweithgareddau dysgu

Gall dysgwyr fynychu mwy nag un gweithgaredd dysgu ar lefel neu ddwyyster gwahanol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, gall dysgwr unigol fynychu cwrs 170 - 259 awr ar lefel Mynediad yn ogystal â chwrs 'fesul awr' ar lefel Sylfaen yn ystod y cyfnod. Cyfrifir hyn fel dau weithgaredd dysgu.

Cymerodd dysgwyr **2018-2019** ran mewn **20,330** o weithgareddau dysgu, cynnydd o 4% o gymharu â 2017-2018.

Mae mwy o wybodaeth am ddata'r sector ar gael ar dysgucymraeg.cymru

Bydd y Ganolfan yn cyhoeddi data 2019-2020 ym mis Mawrth 2021.

Data



► Learn Welsh Statistics

Data Management Plan

The Data Management Plan ensures the Centre collects and reports data in a consistent and accurate manner in order to monitor progress and identify significant trends. Data is collected on all the Centre's learners, and the Centre has been an Official Publisher of Statistics since 2019.

Number of unique learners

The 'number of unique learners' counts every learner only once, regardless of the number of courses they have attended during the year. In **2018-2019**, there was a total of **13,260** unique learners, an increase of 5% compared to 2017-2018.

Contact us:

National Centre for Learning Welsh
College Road
Carmarthen SA31 3EP

office@learnwelsh.cymru

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

  @learncymraeg

 Dysgu Cymraeg - learnwelsh

Learning activities

Learners can attend more than one learning activity at various levels and intensities during the year. For example, a single learner can attend a 170-259 hour course at Entry level as well as a 'per hour' course at Foundation level during the period in question. This is considered as two learning activities.

In **2018-2019** learners took part in **20,330** learning activities, an increase of 4% compared with 2017-2018.

More information about the Centre's data is available at learnwelsh.cymru

The Centre will publish data for 2019-2020 in March 2021.

